## MEMORANDWM ESBONIADOL I

## REOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (CYNNAL REFFERENDA) (CYMRU) 2008

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**RHAN 1**

### 1. **Disgrifiad**

1.1 Mae'r Offeryn hwn yn darparu ar gyfer trefnu i gynnal refferendwm mewn awdurdod lleol yng Nghymru i benderfynu a ddylai'r awdurdod fabwysiadu strwythur gwleidyddol sy'n cynnwys (ymysg eraill) ethol maer yn uniongyrchol. Mae'r Offeryn yn darparu ar gyfer cwestiynau i'w rhoi i'r etholwyr, cyhoeddusrwydd ar gyfer refferendwm, terfynau gwariant, ymddygiad yr awdurdod lleol dan sylw, ynghyd â'r dull pleidleisio, cyfrif a materion sy'n gysylltiedig â'r gofrestr.

### 2. **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

2.1 Dim.

### 3. **Y Cefndir Deddfwriaethol**

3.1 Mae'r pwerau sy'n caniatáu i'r Offeryn gael ei wneud wedi'u cynnwys yn adrannau 45, 105 a 106 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 (30) a pharagraff 30 Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Offeryn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

### 4. **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Bydd yr Offeryn hwn yn dirymu ac yn disodli, gyda diwygiadau priodol, Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2004 (OS Rhif 870 (C.85)) (Rheoliadau 2004). Diben y prif newidiadau a wneir yn y Rheoliadau drafft hyn yw gweithredu'r newidiadau a wneir gan Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 sydd, ymhlith eraill, yn cyflwyno mesuriadau i rwystro twyll etholiadol. Mae crynodeb o'r newidiadau hyn yn yr Atodiad. Yn ogystal, mae'r offeryn yn nodi'r rheolau gweithdrefnol ar gyfer cynnal refferenda o'r fath yn llawn mewn un ddogfen (yn Atodlen 3). Bydd hyn yn sicrhau mynediad a defnydd rhwydd i swyddogion cyfrif a gweinyddwyr etholiadol awdurdodau lleol. Dilëwyd y dewis o gynnal refferendwm trwy gyfrwng pleidlais yn llwyr trwy'r post (o ganlyniad i ddarpariaeth newydd ar gasglu a gwirio dynodwyr personol ar gyfer pleidleiswyr trwy'r post a gyflwynwyd gan Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006).

4.2 Mae'r Offeryn hefyd yn cynnwys terfynau newydd ar gostau refferenda (costau gan neu ar ran unrhyw unigolyn neu gorff at ddibenion refferendwm) a fydd yn gymwys i unrhyw refferendwm a gynhelir ar y dyddiad y mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym, neu wedi hynny. Mae'r cynnydd yn uchafswm y gyfradd, o £2,000 i £2,362, yn cyd-fynd â chwyddiant (ac mae'n cyfateb y cyfraddau yn y rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr – mae paragraff 5.2 yn cyfeirio at hyn).

## 5. **Gweithredu**

5.1 Os na fydd y Rheoliadau'n cael eu gwneud, bydd oedi nes i'r mesurau diogelwch yn erbyn twyll etholiadol, sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Gweinyddu Etholiadol 2006, gael eu hymgorffori yn y broses etholiadol benodol hon.

5.2 Cafodd y ddeddfwriaeth gymaradwy yn Lloegr, sef Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2007 (OS Rhif 2089) (Rheoliadau Lloegr 2007), ei gwneud ar 23 Mai 2007. Maent yn dirymu ac yn newid Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2001 (OS Rhif 1298) (Rheoliadau Lloegr 2001) ac maent yn ymgorffori, fel sy'n briodol, newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006. Mae Rheoliadau Lloegr 2007 yn weddol debyg i'r Rheoliadau arfaethedig ar gyfer Cymru, ond dyma'r gwahaniaethau rhyngddynt:-

- Yn wahanol i'r rheoliadau sy'n eu rhagflaenu, nid oes “Datganiad” yn rhagflaenu'r Cwestiynau Refferenda yn Rheoliadau Lloegr 2007 er mwyn rhoi rhaglith/esboniad. Cafodd y “Datganiad” ei gynnwys yn Rheoliadau Cymru yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol a Chyngor Sir Ceredigion, mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar ddrafft o Reoliadau 2004.

- Yn ôl Rheoliadau Lloegr 2007, mae modd cyfuno refferendwm ag etholiad neu refferendwm arall o hyd. Y farn yw nad yw hyn yn briodol i Gymru. Gan fod etholiadau maer yn debygol o fod yn brin yng Nghymru, drwy eu cynnal ar wahân i etholiadau eraill bydd modd i'r etholwyr ganolbwyntio ar un mater.

- Yn Lloegr, nid yw'r etholwyr mewn awdurdod lleol “wedi'u rhwymo o ran amser” i'r perwyl nad oes ganddynt “gyfnodau deiseb”. Felly gellir cyflwyno deiseb sy'n gofyn am newid i'r strwythur gwleidyddol ar unrhyw adeg.

## 6 **Ymgynghoriad**

6.1 Ymgynghorwyd â'r Comisiwn Etholiadol, llywodraeth leol a phawb arall sydd â diddordeb ar ddrafft y rheoliadau (gweler paragraff e o'r Gwerthusiad Effaith Rheoleiddiol).

## **RHAN 2**

## 7 Asesiad Effaith Rheoleiddiol

a. **Opsiynau (ar gyfer cyflawni'r amcan polisi – yn unol â pharagraff 4 o Ran 1 uchod)**

- **Opsiwn 1 – Gwneud Dim**

Daeth y “cyfnod deiseb” chwe mis, sy'n effeithio ar 21 o'r 22 o awdurdodau lleol (a allai fod wedi'i gwneud yn ofynnol iddynt gynnal refferendwm), i ben ar 31 Hydref 2007. O ganlyniad ni fydd angen iddynt ddefnyddio'r rheoliadau hyn. (Yn fras mae cyfnod deiseb 6 mis yn digwydd bob 4 blynedd. Yn ystod y cyfnod hwn gall o leiaf 10% o'r etholwyr yr awdurdod lleol gyflwyno deiseb ddilys iddo yn galw am newid i fodel y strwythur gwleidyddol, a all gynnwys ethol maer yn uniongyrchol. Mae'r cyfnodau deiseb hyn wedi'u nodi yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001 (OS Rhif 2290 (C.180)) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2003 (OS Rhif 398 (C.55)) (“y Rheoliadau Deisebau”)).

- **Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau**

Mae un awdurdod lleol lle nad yw'r cyfnod deiseb a ddaeth i ben ar 31 Hydref 2007 yn berthnasol iddo, sef Cyngor Sir Ceredigion. Nid ddechreuodd “cyfnod deiseb” y Cyngor hwn tan 20 Mai 2008. Mae hyn am fod y Cyngor Sir wedi derbyn deiseb ddilys yn ystod y cyfnod deiseb cyntaf rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2003; yn y refferendwm canlynol pleidleisiwyd yn erbyn cynnal etholiad i ethol maer. Gofynion adran 45(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 sydd wedi gohirio’r cyfnod deiseb nesaf, gan fod yr adran yn darparu na all awdurdod gynnal mwy nag un refferendwm mewn cyfnod o bum mlynedd (ac mae Rheoliad 3A y Rheoliadau Deisebau yn cyfeirio at hyn). Byddai angen i Gyngor Sir Ceredigion ddefnyddio'r rheoliadau hyn os byddant yn derbyn deiseb ddilys rhwng 20 Mai ac 19 Tachwedd 2008.

Yn ogystal, efallai y bydd angen y rheoliadau hyn ar unrhyw adeg ar gyfer refferendwm a gynhelir o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004, sy'n caniatáu i awdurdod lleol newid ei drefniadau cyfansoddiadol mewn ffyrdd sy'n cynnwys newid ei fodel (strwythur gwleidyddol). Mae angen cynnal refferendwm o etholwyr lleol cyn bod modd mabwysiadu model sy'n cynnwys maer etholedig.

Er ei bod yn anodd darogan pryd fydd angen y Rheoliadau hyn nesaf, a'i bod yn annhebygol y cânt eu defnyddio'n rheolaidd, mae'r ffaith eu bod bellach wedi'u cymeradwyo yn sicrhau bod y broses etholiadol benodol hon yn ymgorffori'r mesurau i rwystro twyll etholiadol a gyflwynwyd drwy Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006. Pe na bai'r rheoliadau'n cael eu gwneud nawr, a phe bai awdurdodau yn hytrach yn dibynnu ar reoliadau sydd i bob pwrpas yn amherthnasol, gallai arwain at broblemau o ran atebolrwydd democrataidd i'r awdurdod dan sylw a'r Cynulliad.

b. **Budd-daliadau**

Bydd cymeradwyo'r rheoliadau hyn yn sicrhau bod y broses etholiadol benodol hon yn ymgorffori'r mesurau yn erbyn twyll etholiadol a gyflwynwyd drwy Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006. Bydd hefyd yn caniatáu i awdurdod lleol newid model ei strwythur gwleidyddol er mwyn cynnwys maer etholedig. Bydd y Rheoliadau hefyd yn cynyddu'r terfynau ar gostau refferenda yn unol â chwyddiant. Drwy nodi'r rheolau gweithdrefnol ar gyfer cynnal refferendwm awdurdod lleol yn un o Atodlenni'r Rheoliadau, byddwn yn darparu dogfen gyfeirio haws ei defnyddio i swyddogion cyfrif a gweinyddwyr etholiadol awdurdodau lleol.

c. **Costau**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol i Lywodraeth Cynulliad Cymru na Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn sgil cymeradwyo'r rheoliadau hyn. Yr awdurdod lleol dan sylw fydd yn talu cost cynnal refferendwm.

d. **Asesu'r Gystadleuaeth**

Ni fydd cyflwyno'r rheoliadau hyn yn effeithio ar sectorau eraill ac nid oes angen hidl cystadleuaeth.

e. **Ymgynghoriad**

Mae adran 45(8B), (8C) ac (8D) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, fel y'i gosodir gan Atodlen 21 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ar ba mor hawdd yw deall y cwestiynau a ofynnir mewn refferendwm ynghyd â'r datganiadau sy'n rhagflaenu'r cwestiynau hynny ar fater cyfyngu ar dreuliau refferendwm. Yn ogystal â'r Comisiwn Etholiadol, dosberthir y rheoliadau drafft ar 5 Rhagfyr 2007 am gyfnod ymgynghori o 8 wythnos a ddaw i ben ar 1 Chwefror 2008 i Brif Weithredwyr, Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Monitro y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol, Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Cymru), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, cynrychiolwyr y pleidiau gwleidyddol ac Aelodau'r Cynulliad.

Mae pedwar ymateb wedi dod i law - oddi wrth y Comisiwn Etholiadol ac oddi wrth 3 awdurdod lleol. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi awgrymu bod mân newidiadau polisi yn cael eu gwneud i Reoliad 5 (Cyfyngu ar Gyhoeddi Deunyddiau Hyrwyddo) a Rheol 26 (Gweithdrefn Bleidleisio) o Reolau Refferenda yn Atodlen 3. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn bod angen y newidiadau hyn. Barn Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y gallai'r diwygiad a awgrymir gan y Comisiwn Etholiadol i Reoliad 5 fod yn agored i'w herio, tra nad oes angen sancsiwn arfaethedig y Comisiwn i'w gynnwys yn Rheol 26. Derbyniwyd nifer o gywiriadau mân iawn i benawdau a rhifo'r paragraffau, a awgrymwyd gan y Comisiwn Etholiadol a Chyngor Sir Dinbych. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r sylwadau a wnaed yn Atodiad 2.

Mae’r Comisiwn Etholiadol wedi cadarnhau ei fod yn fodlon ar eiriad y ddau ddatganiad a’r cwestiynau y gellir eu gofyn mewn refferendwm. Mae’r Comisiwn wedi cadarnhau hefyd ei fod yn fodlon ar y terfyn treuliau newydd ar gyfer refferendwm. Gosodir adroddiad yn datgan barn y Comisiwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

f. **Adolygiad ar ôl Gweithredu**

Mae modd rhagweld effaith y polisi hwn. Mae'n annhebygol y bydd angen ei adolygu yn y dyfodol agos. Mae'n debygol y bydd awdurdodau lleol yn nodi unrhyw anawsterau o ran gweinyddu'r rheoliadau.

g. **Crynodeb**

Bydd y rheoliadau penodol hyn ond yn effeithio ar lywodraeth leol, a'r awdurdodau lleol fydd yn talu'r costau. Mae gwneud y rheoliadau hyn yn sicrhau bod y broses etholiadol benodol hon yn ymgorffori'r mesurau i rwystro twyll etholiadol a gyflwynwyd gan Senedd y DU drwy Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006.

**ATODIAD 1**

**CRYNODEB O NEWIDIADAU DEDDF GWEINYDDU ETHOLIADOL 2006 SYDD WEDI'U CYNNWYS YN RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (CYNNAL REFFERENDA) (CYMRU) 2008:-**

- Mesurau diogelwch newydd: mwy o hyblygrwydd ar farciau diogelwch a chyflwyno marciau adnabod unigryw ar bapurau pleidleisio;

- Rhoi rhestrau rhifau cyfatebol ar bapurau pleidleisio yn lle gwrthddalennau;

- Gosod gofynion ar bleidleiswyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy ddirprwy drwy'r post i roi eu llofnod a'u dyddiad geni wrth ddychwelyd papurau pleidleisio drwy'r post;

- Amgylchiadau newydd lle gellir rhoi pleidlais wedi'i thendro i berson;

- Cyflwynir gofynion newydd ynghylch yr wybodaeth a hygyrchedd yr wybodaeth i'w darparu gan Swyddogion Canlyniadau i wahanol fathau o etholwyr;

- Newidiadau a wnaed ynghylch yr unigolion a ganiateir mewn gorsaf bleidleisio a'r cyfrif i arsylwi etholiadau;

- Darpariaeth ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth i swyddogion llywyddu am newidiadau i'r gofrestr etholwyr electoral sy'n dod i rym ar y diwrnod pleidleisio;

- Diwygiadau canlyniadol yn sgil cyflwyno cynllun i gofrestru etholwyr penodol yn ddienw;

- Newidiadau a wnaed ynghylch cadw ac archwilio dogfennau etholiadol yn dilyn y bleidlais;

- Diwygiadau canlyniadol i ffurflenni cyfredol a ffurflenni newydd a ragnodir i'w defnyddio mewn refferenda o'r fath.

**ATODIAD 2**

CRYNODEB O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD YNGHYLCH RHEOLIADAU DRAFFT AWDURDODAU LLEOL (CYNNAL REFFERENDA) (CYMRU) 2008

Hyd y Cyfnod Ymgynghori – 5 Rhagfyr 2007 tan 1 Chwefror 2008

**Y rheini yr ymgynghorwyd â hwy:-**

Y Comisiwn Etholiadol
Prif Weithredwyr, Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Monitro Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
Cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Cymru)
Swyddfa Archwilio Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Aelodau'r Cynulliad
Pleidiau Gwleidyddol

Daeth 4 ymateb i law oddi wrth:-

- Y Comisiwn Etholiadol
  Kay Jenkins – Pennaeth Swyddfa Cymru

- Cyngor Sir Caerfyrddin
  Phil Grafton – Uwch Gyfreithiwr

- Cyngor Sir Ddinbych
  Ian Hearle – Clerc y Sir

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
  Trevor Coxon – Prif Swyddog Cyfreithiol a Democrataidd

Crynodeb o'r Ymatebion:-

1. Ymgorffori newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006
   - Y Comisiwn Etholiadol – mae'n croesawu hyn.
   - Cyngor Sir Ddinbych – mae'n croesawu hyn.
   - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – mae'n croesawu hyn.

2. Cwestiynau a Datganiadau Esboniadol
   - Y Comisiwn Etholiadol – Yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch fersiwn drafft y rheoliadau sy'n rhagflaenu'r rheoliadau hyn (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2004), cyflwynodd y Comisiwn sylwadau ynghylch pa mor glir yr oedd y cwestiynau ar gyfer refferenda wedi'u geirio. O ganlyniad, diwygiwyd y cwestiynau ac fe'u hatgynhyrchir i raddau helaeth yn y rheoliadau drafft.

Mae'r Comisiwn yn dal i fod yn bryderus am eglurder y cwestiynau a geir yn y Rheoliadau sy'n cyfateb i'r rhain yn Lloegr (The Local Authorities (Conduct of Referendums) (England) Regulations 2007) a hefyd am yr angen i ailystyried y cwestiynau hyn yng ngoleuni'r newidiadau i'r ystod o opsiynau cyfansoddiadol sydd ar gael i'r awdurdodau lleol yn Lloegr o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.

Mae'r Comisiwn yn gofyn a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn debygol o ddiwygio'r ystod o opsiynau cyfansoddiadol sydd ar gael i'r awdurdodau lleol yng Nghymru ac, os ydyw, a yw am ddwyn sylw at yr angen i ailystyried geiriad y cwestiynau ar gyfer refferenda a nodir yn y rheoliadau.

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru: nodwyd.** Ni fydd geiriad y cwestiynau'n cael ei ddiwygio gan nad oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddiwygio'r ystod o opsiynau cyfansoddiadol sydd ar gael i'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Comisiwn hysbysu swyddogion am ganlyniad ei drafodaethau gyda Llywodraeth y DU.

3. Lefelau Treuliau
    - Y Comisiwn Etholiadol - Roedd y Comisiwn wedi argymell bod y terfynau o ran treuliau yn y Rheoliadau sy'n cyfateb i'r rhain yn Lloegr yn cael eu codi yn unol â chwyddiant, ac mae, felly, yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu gwneud yr un peth.

    - Cyngor Sir Caerfyrddin - Dylai'r rheoliadau ynghylch terfynau gwariant gael eu hysgrifennu'n glir a dylid eu harddangos hwy a'r tramgwyddau troseddol cysylltiedig. Byddai gwneud hyn, o bosibl, yn fodd i leihau'r ansicrwydd a'r amwysedd sy'n codi yn aml ynglŷn â gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiadau. Dylai torri'r rheoliadau sy'n ymdrin â therfynau gwariant fod yn dramgwydd troseddol.

    **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru: gwrthodwyd.** Mae Rheoliad 6 eisoes yn pennu terfyn ar wariant sy'n gysylltiedig â refferenda. O dan Reoliad 6(3), mae gwario mwy na'r terfyn gwariant ar gyfer refferendwm yn dramgwydd, ac o dan Reoliad4(c)(v), mae'n ofynnol i hysbysiadau a gyhoeddir gan yr awdurdod lleol gynnwys manylion y terfynau gwariant sy'n gysylltiedig â refferenda. (Fe'n hysbyswyd wedyn gan Gyngor Sir Caerfyrddin bod eu sylwadau yn cyfeirio at dreuliau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn hytrach nag at gynnal refferenda ac o'r herwydd, nid yw'n fater y mae angen ei ystyried yn achos y rheoliadau penodol hyn).

4. Ymgorffori'r Rheolau Gweithdrefnol mewn Un Ddogfen
    - Y Comisiwn Etholiadol – mae'n croesawu hyn.

5. Nid yw'r opsiwn i gynnal refferendwm drwy bleidlais drwy'r post yn unig ar gael bellach
    - Y Comisiwn Etholiadol – Mae o blaid y ffaith na fydd y rheoliadau hyn bellach yn darparu ar gyfer cynnal pleidleisiau drwy'r post yn unig. Mae

hyn yn adlewyrchu argymhellion a wnaed gan y Comisiwn mewn adroddiadau blaenorol i beidio â defnyddio pleidleisiau drwy'r post yn unig yn etholiadau statudol y DU.

- Cyngor Sir Caerfyrddin – Mae'n cytuno na ddylai pleidleisio drwy'r post yn unig fod yn opsiwn. Ni fyddai pleidleisio drwy'r post yn unig yn ymarferol a byddai'n debygol o ddifreinio pleidleiswyr.

  Cyngor Sir Ddinbych – O blaid. Mae'n cydnabod yr anawsterau y byddai pleidleisio drwy'r post yn unig yn eu hachosi.

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - mae'n croesawu hyn. Byddai cynnwys y newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 yn y rheoliadau yn golygu y byddai cynnal refferendwm drwy'r post yn unig yn amhosibl a byddai hefyd yn cydymffurfio â'r trefniadau diogelwch angenrheidiol.

6. <u>Dim darpariaethau sy'n caniatáu cyfuno etholiadau</u>
   - Y Comisiwn Etholiadol – mae o blaid peidio â chynnwys darpariaethau a fyddai'n golygu y byddai modd cyfuno refferendwm ag etholiad neu refferendwm arall. Mae'r Comisiwn yn erbyn cyfuno etholiadau lleol a refferenda ynghylch meiri, yn benodol felly am y byddai gwneud hynny'n peri dryswch i bleidleiswyr.

7. <u>Materion Eraill</u>
   - Y Comisiwn Etholiadol - Mae ganddo bryderon am Reoliad 5 (Cyfyngu ar Gyhoeddi etc. Deunydd Hyrwyddo) sy'n gwahardd cynghorau rhag cynnal ymgyrchoedd hysbysrwydd rhagweithiol o fewn 28 niwrnod i refferendwm. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai Llywodraeth y DU ystyried yr opsiynau ar gyfer caniatáu i wybodaeth ffeithiol am ganlyniadau ymarferol pleidlais "o blaid" neu "yn erbyn" gael ei chyhoeddi yn ystod cyfnod yr ymgyrch, naill ai'n uniongyrchol gan y cynghorau, neu gan y Swyddog Canlyniadau, neu gan gorff neu unigolyn arall.

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru: gwrthodwyd**. Byddai galluogi corff neu unigolyn i gyhoeddi gwybodaeth ffeithiol am ganlyniadau ymarferol pleidlais "o blaid" neu "yn erbyn" o fewn 28 niwrnod i refferendwm yn beryglus, oherwydd mae'n bosibl y gallai pobl gamddehongli'r wybodaeth honno, gan gymryd bod rhagfarn o blaid un ochr (ac ar gyfer y bleidlais "yn erbyn" yn benodol) a gallai hynny arwain at her gyfreithiol.

- Y Comisiwn Etholiadol - Mae ganddo bryderon am y modd y drafftiwyd Rheol 26 (Gweithdrefn Bleidleisio) yn Rheolau'r Refferendwm yn Atodlen 3, mewn perthynas â rhoi papur pleidleisio i etholwr dienw. Er bod y Rheol yn pennu bod yn rhaid i etholwr dienw ddangos ei gerdyn pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu cyn y caiff y swyddog hwnnw roi papur pleidleisio i'r etholwr hwnnw, nid oes unrhyw sancsiwn yn y Rheol a fyddai'n caniatáu i'r Swyddog Llywyddu wrthod rhoi papur pleidleisio pe nai bai etholwr dienw yn cyflwyno'i gerdyn pleidleisio. Er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd posibl ynghylch etholwyr dienw mewn gorsafoedd pleidleisio yn y dyfodol,

mae'r Comisiwn yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys sancsiwn clir yn y rheoliadau.

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru: gwrthodwyd**. Nid oes angen sancsiwn o'r fath. Bwriedir i'r gofyniad i ddangos y cerdyn pleidleisio fod yn ffordd ymarferol o sicrhau nad oes modd adnabod y pleidleisiwr dienw. Gan ei bod yn ofynnol o dan y Rheol hon i'r pleidleisiwr dienw ddangos ei gerdyn pleidleisio i'r swyddog llywyddu, mae'n amlwg, felly, na fydd y swyddog llywyddu mewn sefyllfa i roi papur pleidleisio i bleidleisiwr sy'n gweithredu'n groes i'r gofyniad hwn.

8. <u>Amrywiol</u>

- Cyngor Sir Ddinbych – Yn y diffiniad o "refferendwm pellach" o dan Reoliad 2(1), dylid cyfeirio ar Reoliad 13(4) yn hytrach na 14(3).

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru: derbyniwyd**. Diwygiwyd Rheoliad 2(1) yn unol â'r hyn a nodir uchod.

- Y Comisiwn Etholiadol – yr Atodiad Ffurflenni

Yn fersiwn Saesneg y "Rhestr Rhifau Cyfatebol - L1", dylid ei gwneud yn glir mai ar gyfer "pleidleisiau post" y dylid defnyddio'r ffurflen hon. Mae camgymeriad hefyd yn fersiwn Saesneg y cyfarwyddiadau ar gyfer y golofn sy'n dwyn yr enw "Number on Electoral Register". Dylid cyfeirio at bleidleiswyr "postal" a "proxies" sy'n pleidleisio yn hytrach na phleidleiswyr "personal" a "persons" sy'n pleidleisio.

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru: derbyniwyd**. Diwygiwyd y ffurflen yn unol â'r hyn a nodir uchod.

Yn y "Rhestr Rhifau Cyfatebol - L2", dylid ei gwneud yn glir mewn pennawd mai "mewn gorsafoedd pleidleisio mewn refferendwm" y dylid defnyddio'r ffurflen hon.

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru: derbyniwyd**. Diwygiwyd y ffurflen yn unol â'r hyn a nodir uchod.

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Ni fyddai ganddo unrhyw wrthwynebiad pe bai'r cyfnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno deiseb refferendwm yn cael ei newid. Gan mai dim ond un ddeiseb o'r fath a ganiateir o fewn cyfnod o bum mlynedd yn unol ag Adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ymddengys nad oes unrhyw bwynt cyfyngu mwy ar y dyddiad ar gyfer cyflwyno'r ddeiseb honno.

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru: nid oes angen gweithredu yn hyn o beth**.

Mae Adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu na chaiff awdurdod lleol gynnal mwy nag un refferendwm mewn unrhyw gyfnod o 5 mlynedd. Mae nifer y deisebau y caniateir eu cynnal o fewn cyfnodau penodol yn rhan o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003, nad ydynt yn cael eu hadolygu.